# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn

## 17/11/2009

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

### Cwestiynau i'r Prif Weinidog

#### Busnesau Entrepreneuraidd

**C11 Sandy Mewies:** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i sicrhau bod busnesau entrepreneuraidd yn cael eu hannog i ddod â'u harbenigedd i Gymru? OAQ(3)2385(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae gan Lywodraeth y Cynulliad ystod o fesurau i helpu i ddatblygu entrepreneuriaeth yng Nghymru, gan gynnwys mewnfuddsoddwyr. Yr oedd yn braf darllen adroddiad arolwg ffurfiol diweddar ar addysg uwch a oedd yn dangos mai graddedigion yng Nghymru sy'n sefydlu 11 y cant o'r holl fusnesau a ddechreuir gan raddedigion yn y DU, er mai dim ond 5 y cant o boblogaeth myfyrwyr y DU sydd yng Nghymru.

#### Agenda Polisi

**C12 Kirsty Williams:** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyflawni agenda polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru? OAQ(3)2406(FM)

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf yn falch o ddweud ein bod yn gwneud cynnydd cyson o ran ein hagenda 'Cymru'n Un'.

#### Gwasanaethau Cyhoeddus

**C13 Andrew R.T. Davies:** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i godi safon gwasanaethau cyhoeddus allweddol yng Nghymru? OAQ(3)2393(FM)

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym yn gweithredu agenda ddiwygio uchelgeisiol, yn seiliedig ar egwyddorion gweithredu'n effeithlon a chydweithio, gan ganolbwyntio ar y dinesydd a gweithio mewn partneriaeth â'r gweithlu i gael y gwerth gorau am y bunt Gymreig. Er enghraifft, yr ydym yn cymryd camau i roi terfyn ar y farchnad fewnol yn y GIG i wella gwasanaethau i gleifion.

#### Cyflog Byw ar gyfer Cymru

**C14 Janet Ryder:** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i sefydlu cyflog byw ar gyfer Cymru? OAQ(3)2395(FM)

**Y Prif Weinidog:** Nid mater datganoledig yw'r cyflog byw, fel yr isafswm cyflog er enghraifft. Serch hynny, y llynedd cytunais i gomisiynu gwaith ymchwil drwy'r panel cynghorol ar ymchwil economaidd i economeg cyflog byw yng Nghymru. Dechreuodd y gwaith ymchwil ym mis Chwefror ac mae adroddiad Cam 1 bron wedi'i gwblhau.

#### Iechyd Mewn Ardaloedd Gwledig

**C15 Mick Bates:** Pa asesiad y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i wneud o sialens

darparu gofal iechyd mewn ardaloedd gwledig? OAQ(3)2396(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae’r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaeth Cymdeithasol wedi asesu’r heriau o ran datblygu ein cynllun iechyd gwledig i Gymru. Yr oedd hyn yn cynnwys y gwaith o nodi canfyddiadau a phrofiadau pobl o iechyd ac adolygiad eang o lenyddiaeth ac ymchwil mewn perthynas ag iechyd a modelau darparu gwasanaethau iechyd mewn ardaloedd gwledig yn y DU a’r tu hwnt.